Enw'r Prosiect	Cyswllt Prosiect / Gwasanaeth / Adran	Trosolwg Cryno	Gwerth y Prosiect Cyfalaf	Gwerth y Prosiect Refeniw
Natur er Budd Iechyd	Gwasanaeth Cefn Gwlad - Hannah Arndt	Mae'r Rhaglen Natur er Budd Iechyd yn darparu cyfleoedd i helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon trwy wella mynediad i'r amgylchedd naturiol ar lefel leol. Mae sesiynau wythnosol yn cynnwys sgiliau cadwraeth a gwledig, teithiau cerdded iechyd a natur, celf a chrefft a sesiynau tyfu eich cynnyrch eich hun ynghyd â chyfleoedd i wirfoddoli a datblygu sgiliau. Mae grwpiau mewn pum maes cyflawni bellach wedi'u sefydlu i ddarparu nifer o gyfleoedd i drigolion ymgysylltu â nhw. Cynhelir gweithdai a sesiynau gwirfoddoli ar fannau gwyrdd Tai Sir Ddinbych ac ar safleoedd cefn gwlad a threftadaeth yn y Rhyl, Prestatyn, Llangollen, Corwen a Dinbych.	£99,371	£59,029
Twrnameintau Chwaraeon Ysgolion	ADGO - Sian Bennett	Bydd 10 twrnamaint chwaraeon yn cael eu cynnal rhwng Ionawr a Mawrth 2023 Mae'r twrnameintiau hyn yn rhoi cyfle i blant gymryd rhan mewn gŵyl hwyliog gyda gwybodaeth ar gael iddynt am glybiau chwaraeon lleol y gallent ymuno â nhw.		£5,000
Prynu camerâu ANPR	Priffyrdd a'r Amgylchedd - Mike Bennion	Prynu chwe chamera gwyliadwriaeth manyleb ANPR arbenigol y gellir eu hadleoli a fydd yn ein galluogi i fonitro a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â mannau problemus o ran troseddau amgylcheddol.	£75,000	£9,000
TCC Canol Tref Dinbych	Priffyrdd a'r Amgylchedd - Ian Millington	Uwchraddio'r hen gamerâu teledu cylch cyfyng presennol ar draws canol tref Dinbych a chyflwyno mwy o gamerâu i gynyddu'r ardal dan sylw a darparu uchafswm o chwe chamera TCC i rwydwaith camerâu gofod cyhoeddus Partneriaeth Sir Ddinbych	£55,687	
Gardd Fotaneg a Phyllau Prom y Rhyl	Priffyrdd a'r Amgylchedd - Mike Bennion	Adfywio ardaloedd hamdden - Caniatáu amnewid pyllau addurniadol hanesyddol yn y Gerddi Botaneg a Phrom y Rhyl (4 safle i gyd)	£42,000	
Adnoddau DM Ychwanegol	Priffyrdd a'r Amgylchedd - Mike Bennion	Darparu glanhau amgylcheddol ychwanegol, cynnal a chadw tiroedd ac adnoddau AHNE (tymor twristiaeth brig Ebrill i Hydref 2022)		£250,000

Parciau i Bobl	AHNE / Cefn Gwlad - David Shiel	Mae nifer yr ymwelwyr â safleoedd ymwelwyr allweddol wedi gweld cynnydd dramatig dros y ddwy flynedd ddiwethaf – Nid yw'r prysurdeb a brofwyd ar godi cyfyngiadau'r pandemig wedi lleddfu. Mewn gwirionedd maent wedi parhau i dyfu. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r pwysau cysylltiedig gan ymwelwyr wedi golygu bod angen presenoldeb Ceidwad ar bob safle i roi cyngor ac arweiniad cadarnhaol i ymwelwyr. Bydd hyn yn lleihau tagfeydd ac effeithiau negyddol niferoedd uchel o ymwelwyr ar y gymuned leol ac yn gwella profiad ymwelwyr.		£130,135
Cynllun Dechrau Gweithio	Sir Ddinbych yn Gweithio - Rachel Sumner-Lewis	Mae'r Cynllun Dechrau Gweithio wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd lleoliad gwaith o ansawdd uchel gan ddarparu profiad gwaith â chymorth i drigolion Sir Ddinbych 16 oed a hŷn a fydd yn eu galluogi i wneud y mwyaf o gyflogaeth gynaliadwy. Mae lleoliadau gwaith yn gam hanfodol o daith rhywun at waith, yn cynnig cyfle iddynt ddysgu a chael cipolwg ar fywyd gwaith. Mae'r Cynllun Dechrau Gweithio wedi'i dreialu gan Gyngor Sir Ddinbych ac mae'n cynnig cyfleoedd lleoliadau gwaith mewnol/allanol gwerthfawr ac ymagwedd Llwybr Sector. Mae hefyd yn cynnig cyfle ychwanegol i bobl ddi-waith ddatblygu eu sgiliau ochr yn ochr â'r profiad gwaith gwerthfawr.		£305,030
Llwybrau	Addysg - James Brown	Bydd Llwybrau yn darparu cymorth i tua 420 o bobl ifanc bob blwyddyn academaidd yn Sir Ddinbych, naill ai'n lleihau'r risg o ymddieithrio neu'n darparu cymorth i ailymgysylltu ag addysg, neu i symud i gyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd blwyddyn 11, gan anelu at fynd i'r afael ag un o achosion tlodi hirdymor. Mae Llwybrau yn cynnig dwy brif elfen yn y prosiect i gefnogi pobl ifanc ddiamddiffyn. Yr elfennau hyn yw Swyddogion a Chwnselwyr Ymgysylltu ag Addysg. Mae rôl y swyddog Ymgysylltu ag Addysg yn adeiladu ar lwyddiant mentor cymorth TRAC, tra bod y Cwnselwyr yn cynnig gwasanaethau ychwanegol i dargedu iechyd meddwl, yn enwedig ymysg bechgyn.		£297,557
Barod	Sir Ddinbych yn Gweithio - Tina Foulkes	Mae Barod yn gweithio gyda phobl nad ydynt yn hollol barod i ymuno â'r farchnad lafur i fynd i'r afael â'u rhwystrau i gyflogaeth, codi dyheadau a chynyddu cymhelliant a hyder.		£64,996.25

		Mae'r prosiect hwn yn cyfuno amrywiaeth o wasanaethau o amgylch unigolion 16-35 oed i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o rwystrau i gyflogaeth, codi dyheadau, cynyddu cymhelliant ac ymgysylltu â'r farchnad lafur neu raglenni cyflogaeth prif ffrwd yr Adran Gwaith a Phensiynau. O ystyried yr anawsterau rhanbarthol sy'n cael eu profi wrth recriwtio i gyflogadwyedd a chefnogi sgiliau, ein nod yw agor y drysau i grŵp oedran ehangach ym mis Ionawr a fydd yn ein helpu i ddechrau gweithredu o fis Ebrill ymlaen pe bai cyllid pellach yn cael ei sicrhau.		
Ailwampio Canolfan Ieuenctid y Rhyl	Gwasanaeth Ieuenctid - Jeanette Smalls	Bydd y prosiect yn gweld adnewyddu hen Gaffi'r East Parade (sy'n wag ers 2015) i adleoli Canolfan Ieuenctid y Rhyl i'r adeilad. Bydd y prosiect yn darparu adeilad modern addas i'r pwrpas ar gyfer pobl ifanc y Rhyl a Gogledd Sir Ddinbych, gan gynyddu mynediad i weithgaredd gwaith ieuenctid, ymyriadau gwaith ieuenctid penodol, cyngor, arweiniad a gwybodaeth, a mynediad at asiantaethau partner. Gwaith cynnal a chadw i'r ystafelloedd mewnol ac ailaddurno, gwirio systemau diogelwch mewnol a gwaith oherwydd bod yr adeilad yn wag a gosod cegin a ffenestri newydd.	£225,544	
Croeso Cynnes / Banc Bwyd / pasbort ariannu gwresogi	Tai - Cath Taylor	Hoffem gynnig cymorth ariannol, trwy gynlluniau grant i'n canolbwyntiau cymunedol Croeso Cynnes a'n mentrau banc bwyd cymunedol. Mae'r ddau uchod wedi derbyn cyllid ymateb brys bychan drwy CLlLC yn flaenorol, a bu gormod o alw am y ddau ohonynt yn gyflym iawn. Hoffem hefyd gynnig y cyfle i'n partneriaid trydydd sector wneud cais am rywfaint o arian ar gyfer prosiectau peilot i ymateb i'r argyfwng costau byw cynyddol. Gobeithiwn y bydd y cyllid hwn yn denu syniadau creadigol ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw ar lefel leol. Bydd y tri ymateb hwn yn rhoi llwyfan i ymgysylltu'n ehangach â'n cymunedau a galluogi cymorth 'estynedig' i gael ei sianelu drwyddynt drwy wasanaethau cymorth proffesiynol e.e. cymorth gyda chyllid, cyflogadwyedd, cyfleoedd dysgu ac ati…		£250,000